# Adroddiad ar

# Myrtle House Nursery
# 22 Myrtle Terrace
# Llanelli
# SA15 1LH

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2016**

## Gwybodaeth am y lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Myrtle House Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) Cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Ellen Chapman |
| Person â gofal | Julia Chapman |
| Nifer y lleoedd | 47 |
| Amrediad oedran y plant | 0 i 5 oed |
| Nifer y plant a ariennir ar gyfer eu haddysg | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8:00 tan 18:00 |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Mehefin 2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 3 a 4 Tachwedd 2015 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Saesneg fel iaith y cartref. Mae ychydig bach iawn o blant yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r lleoliad wedi nodi bod gan ychydig o blant anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig bach iawn o blant yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae gan y lleoliad 19 aelod staff amser llawn a dau aelod staff rhan-amser. Ymgymerodd yr unigolyn cyfrifol â'i swydd yn 2004.

## Crynodeb o'r adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

### Diffyg cydymffurfio

Ni amlygwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Adolygu'r trefniadau ar gyfer amser byrbryd i sicrhau bod plant yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu medrau annibynnol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu medrau datrys problemau ar lefel briodol

A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad y Gymraeg

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn rhyngweithio’n hyderus â’i gilydd a gyda’r ymarferwyr. Ymatebant yn dda i gwestiynau a ofynnir yn ystod amser cylch ac yn ystod gweithgareddau â ffocws. Ar draws y lleoliad, mae plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i’w dymuniadau. Er enghraifft, sylweddolodd ymarferwr o iaith corff plentyn ei fod eisiau mwy o ofod personol ac ymatebodd i hyn ar unwaith. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am eu gweithgareddau. Er enghraifft, yn ystod chwarae yn yr awyr agored, mae plant yn chwarae mewn ardaloedd gwahanol, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i’r llall.

Mae’r plant yn hapus, yn ymlacio ac yn gyfforddus gyda’u gofalwyr. Maent yn mynd at ymarferwyr yn hyderus pan fydd angen cysur neu gymorth arnynt. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn mynd yn eiddgar at eu dewis gweithgaredd i’w chwarae. Mae’r ychydig blant sy’n cynhyrfu o weld eu rhieni yn gadael yn tawelu’n gyflym. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn wydn ac yn dod dros fân ofidiau yn gyflym; maent yn ailddechrau chwarae pan fyddant yn cael sicrwydd ac anogaeth gan staff. Mae ychydig o blant hŷn yn dechrau meithrin cyfeillgarwch ac yn dangos gofal a phryder tuag at ei gilydd. Er enghraifft, roedd plentyn yn pryderu am blentyn arall a oedd wedi cynhyrfu; fe wnaeth hi siarad ag ef, dal ei law a’i arwain i’r gweithgaredd nesaf.

Mae’r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn parhau i wrando ar stori er eu bod wedi bod yn eistedd am amser go hir. Maent yn rhannu adnoddau’n dda ac yn dechrau cymryd eu tro.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad ac yn ymuno’n frwdfrydig â’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnig. Wrth i blant symud ymlaen drwy’r lleoliad, maent yn deall ac yn ymateb i lefel briodol o Gymraeg.

Mae bron yr holl blant yn gwneud cynnydd da yn ôl eu cam datblygu ac yn dod yn fwyfwy annibynnol. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o’r plant hŷn yn golchi eu dwylo ac yn brwsio’u dannedd yn annibynnol. Fodd bynnag, mae’r lleoliad yn rhoi cyfleoedd prin i blant ddatblygu eu medrau annibynnol adeg amser byrbryd. Er enghraifft, nid yw plant yn helpu i baratoi nac i glirio ar eu hôl.

| Dysgu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig) | Da |
|---|---|

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ac yn adalw dysgu blaenorol yn dda, er enghraifft disgrifio nodweddion yr hydref i ymwelwyr, yn dilyn pwnc diweddar.

Mae llawer o blant yn gwrando’n dda ac yn dilyn amrywiaeth o gyfarwyddiadau gyda dealltwriaeth, er enghraifft wrth ddawnsio i gân actol am dân gwyllt. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ymuno’n frwdfrydig â chaneuon yn Gymraeg a Saesneg ac yn gwybod y geiriau ar gyfer amrywiaeth fawr o ganeuon a rhigymau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o offer yn hyderus i ddatblygu medru ysgrifennu cynnar, gan

ddangos rheolaeth gynyddol. Wrth edrych ar lyfrau, mae llawer o blant yn dal y llyfr y ffordd gywir ac yn siarad am yr hyn sy'n digwydd yn y lluniau. Maent yn mwynhau rhannu llyfr gydag oedolyn ac yn cynnal diddordeb mewn storïau.

Mae medrau rhifedd plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i bump yn hyderus ac yn paru nifer y smotiau ar ddominos yn gywir. Yn yr ardal chwarae rôl, mae llawer yn paru rhifau ar restri siopa â nifer y darnau arian mae'n rhaid iddyn nhw eu rhoi i'r siopwr. Mae plant mwy abl yn chwarae rôl y siopwr ac yn gwirio bod plant eraill yn rhoi'r nifer cywir o ddarnau arian i'r siopwr ar gyfer yr eitemau a brynant.

Mae llawer o blant yn dechrau defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ac yn hyderus yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd. Maent yn defnyddio til electronig yn yr ardal chwarae rôl archfarchnad ac yn gwneud cyhoeddiadau gan ddefnyddio microffon. Mae ychydig ohonynt yn edrych ar amrywiaeth o luniau o'r noson tân gwyllt ar lechen. Maent yn deall sut i symud o un llun i'r nesaf.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn pedalu amrywiaeth o feiciau ac offer reidio yn fedrus ac yn defnyddio y sleid yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn datblygu medrau Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall gorchmynion syml a roddir yn Gymraeg. Mae llawer yn adnabod y geiriau ar gyfer lliwiau ac mae ychydig bach yn ymateb yn Gymraeg pan ofynnir iddynt ba liw yw gwrthrych. Mae bron pob un o'r plant yn gyfarwydd ag amrywiaeth dda o ganeuon a rhigymau yn Gymraeg ac yn ymuno yn frwdfrydig.

Mae llawer o blant yn dechrau datblygu medrau datrys problemau, er enghraifft cynllunio sut i gael llysiau i'r farchnad ar gyfer y cynhaeaf. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r medrau hyn wedi'u datblygu'n dda.

| **Gofal a datblygiad** | Da |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn arwain trwy esiampl trwy ganolbwyntio ar eu hiechyd a'u lles eu hunain a threfnu digwyddiadau i hyrwyddo ffitrwydd corfforol. Cynigir byrbrydau a phrydau iachus a maethlon i'r plant ac maent yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffres. Mae ymarferwyr yn pwysleisio pwysigrwydd bwyta'n iach i rieni. Er enghraifft, rhannant ryseitiau iach mae'r plant wedi'u coginio yn y lleoliad. Trwy arferion bob dydd, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant wneud ymarfer corff a chwarae tu allan. Maent yn codi ymwybyddiaeth plant o bwysigrwydd gofalu am eu dannedd trwy frwsio'u dannedd yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth weini moddion ac mae tystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol gan bron pob un ohonynt.

Mae ethos teuluol yn bodoli yn y lleoliad ac mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gofalu amdanynt ac yn eu cefnogi. Er enghraifft, mae babanod yn mynd i gysgu ar ôl dilyn eu harfer arferol. Mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion y

plant ac yn rhoi cymorth a sicrwydd cynnes pan fydd ei angen. Mae gan y lleoliad weithdrefnau da i gefnogi plant adeg pontio. Er enghraifft, mae plant a rhieni'n cael ymweliadau cyflwyno a chyfarwyddo cyn y pontio o'r adran o dan ddwy oed i'r adran dros ddwy oed. Mae'r lleoliad yn datblygu cysylltiadau agosach ag ysgolion lleol yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda. Maent yn fodelau da o ymddygiad ac yn atgoffa plant yn gyson i rannu teganau a bod yn garedig i'w gilydd. Maent yn tynnu sylw plant sy'n dechrau aflonyddu ac yn hoelio'u sylw yn gyflym mewn gweithgareddau eraill. Mae'r holl ymarferwyr yn siarad â'r plant mewn modd digynnwrf a thawel.

Caiff y plant gyfleoedd da i ddysgu am bwysigrwydd pethau byw trwy dyfu planhigion ac ymweliadau gan wahanol anifeiliaid, gan gynnwys tylluanod, draenogod ac ŵyn bach.

Mae'r lleoliad yn gofyn i'r plant ddarparu eitemau ar gyfer y banc bwyd lleol, gan godi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd gofalu am bobl eraill. Cânt gyfleoedd da i ddysgu am ddiwylliannau eraill trwy storïau, adnoddau a themâu wedi'u cynllunio.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r rheoliadau ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bron pob un o'r staff wedi mynychu hyfforddiant perthnasol, diweddar ar ddiogelu.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol iawn i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol, fel therapyddion lleferydd ac elusennau perthnasol, i gefnogi datblygiad plant. Maent yn rhoi gwybodaeth dda iawn i rieni am gynnydd eu plant ac yn eu cynnwys yn briodol wrth osod targedau.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig)** | Da |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn rhoi amrywiaeth werthfawr o brofiadau dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen, ar draws pob maes dysgu. Mae cynllunio ar gyfer tasgau â ffocws yn cynnwys manylion priodol ac yn canolbwyntio'n addas ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl plant. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu medrau datrys problemau effeithiol. Mae ymarferwyr yn dechrau cynnwys plant yn briodol mewn cyfrannu syniadau ar gyfer themâu ac i ymestyn themâu pan fydd plant yn dangos diddordeb penodol mewn gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o amrywiaeth eang o ymwelwyr â'r lleoliad i ymestyn y cwricwlwm yn dda. Er enghraifft, mae'r heddlu a'r gwasanaeth tân yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd.

Mae gan y lleoliad gyfleoedd ansawdd da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant. Mae cynllunio meddylgar yn sicrhau bod ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau sy'n datblygu'r medrau hyn yn llwyddiannus mewn gwahanol ardaloedd o'r amgylcheddau dan do ac awyr agored. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio ryseitiau yn y gegin fwd. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau

ysgogol gan ddefnyddio amrywiaeth eang o offer a chyfryngau gwahanol i annog medrau ysgrifennu cynnar plant. Dyma nodwedd gref o ddarpariaeth y lleoliad.

Caiff bron bob un o'r plant gyfleoedd da i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae ychydig ymarferwyr yn defnyddio llawer o Gymraeg yn y lleoliad, ond ni chaiff y Gymraeg ei defnyddio'n gyson gan yr holl ymarferwyr ar gyfer arferion cytûn. O ganlyniad, nid yw llawer o blant yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg i ateb cwestiynau syml. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ganeuon a rhigymau i gyflwyno ymadroddion Cymraeg syml.

Mae ystod werthfawr o brofiadau dysgu gan y lleoliad i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol plant yn dda, er enghraifft drwy'r amser myfyrio dyddiol pan fyddant yn ystyried sut y gallant wneud eu gorau. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ailgylchu ac arbed ynni yn briodol. Caiff plant lawer o gyfleoedd ansawdd da i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau trwy ymwelwyr â'r lleoliad. Dangosont ddiddordeb arbennig ym mywydau plant yn Nhanzania yn dilyn ymweliad gan un o'r ymarferwyr i sefydlu meithrinfa yno.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf a phwrpasol. Mae ganddynt berthynas waith gadarnhaol gyda phlant a defnyddiant strategaethau effeithiol iawn i reoli ymddygiad plant. Mae dealltwriaeth gadarn o ymarfer y Cyfnod Sylfaen gan bron bob un o'r ymarferwyr. Defnyddiant gwestiynu yn effeithiol i ymestyn dysgu'r plant ac i ddatblygu'u medrau meddwl. Darparant gyfleoedd da i blant ddysgu trwy chwarae a chyfranogiad gweithgar. Fodd bynnag, ambell waith, mae plant yn treulio gormod o amser mewn grwpiau dan arweiniad oedolyn yn hytrach nag yn ymarfer medrau yn ystod chwarae rhydd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae eu canolbwyntio'n pylu ac maent yn dechrau aflonyddu.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i olrhain cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau o'r plant yn rheolaidd trwy arsylwi arnynt, a defnyddiant y rhain yn briodol i gynllunio'r camau nesaf i ddatblygu medrau plant. Nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i herio'r plant mwy abl. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn ar draws feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol a thrwy adroddiad ysgrifenedig cynhwysfawr ddwywaith y flwyddyn.

| **Yr Amgylchedd** | Da |
|---|---|

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel. Ni all unrhyw ymwelydd fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod aelod staff yn rhoi mynediad iddo. Mae ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o faterion diogelwch. Er enghraifft, ni ddigwyddodd sesiwn fore o chwarae tu allan oherwydd y perygl y byddai plant yn cwympo ar ddecin gwlyb. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'u rolau yn cynnal diogelwch plant. Er enghraifft, gwnânt asesiadau risg dyddiol o'r ardaloedd dan do ac awyr agored. Defnyddiant weithdrefnau effeithiol ar ddiwedd sesiwn i sicrhau bod plant yn gadael gyda rhieni neu ofalwyr cydnabyddedig.

Mae'r safle'n lân ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, er enghraifft trwy wisgo dillad amddiffynnol i baratoi

a gweini bwyd. Mae mwyafrif yr ymarferwyr wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd. Mae arweinwyr yn adolygu'r Offeryn Archwilio Rheoli Hylendid yn flynyddol ac yn gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a gaiff eu darganfod.

Mae'r plant hŷn yn mynd i'r tŷ bach ac yn defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân tu hwnt ac mae ymarferwyr yn dilyn canllawiau i hybu preifatrwydd ac urddas plant.

Mae'r safle'n groesawgar, yn gynnes ac yn gyfforddus, ac yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae. Mae gwaith crefft, ffotograffau a phosteri addysgol plant sy'n cael eu harddangos dros y lleoliad yn cyfrannu tuag at amgylchedd symbylol. Mae trefn y prif adeilad, a gaiff ei ddefnyddio gan y plant dros ddwy oed, yn caniatáu iddynt symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau effeithiol o ran eu chwarae. Mae'r plant o dan ddwy oed yn cael gofal yng ngweddill y byngalo. Mae digon o le i'r plant chwarae a gorffwys. Er enghraifft, mae ystafelloedd ar wahân yn y ddwy ardal chwarae i blant orffwys a chysgu.

Caiff lles plant ei hyrwyddo trwy allu cael at ddewis helaeth o deganau ac offer yn y ddwy ystafell chwarae ac yn yr ardaloedd awyr agored. Caiff adnoddau eu cadw yn y blychau wedi'u labelu, a gedwir ar lefel isel, gan alluogi'r plant i wneud dewisiadau o ran eu chwarae. Mae gan y lleoliad ystod dda o deganau ac offer i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, mae'r offer coginio yn cynnwys wok a gweill bwyta.

Mae'r ardal awyr agored yn ddiddorol ac mae'n cynnwys ardaloedd naturiol i blant archwilio a dysgu. Mae ardaloedd addas wedi'u gorchuddio, sy'n caniatáu i blant chwarae tu allan, ni waeth beth yw'r tywydd. Mae gan y plant o dan ddwy oed eu hardal chwarae amgaeedig eu hunain, sy'n cynnwys detholiad da iawn o deganau ac offer sy'n briodol i'r grŵp oedran hwn.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Da |
|---|---|

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gydag ymarferwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn diweddaru datganiad o ddiben y lleoliad yn rheolaidd ac mae'n rhoi darlun cywir at ei gilydd o'r hyn y gall y lleoliad ei gynnig. Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac mae'n rhagori ar y safonau cenedlaethol gofynnol yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybodaeth dda iawn i'r unigolyn cyfrifol am gynnydd y lleoliad a'i feysydd i'w gwella.

Mae ethos cadarnhaol gan y lleoliad, lle rhoddir pwys ar ymdrechion yr holl staff a phlant. Mae gan yr arweinydd a'r unigolyn cyfrifol ddisgwyliadau uchel o'r staff ac maent yn eu herio i wneud eu gorau. Mae cyfarfodydd gwerthuso rheolaidd yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod yn mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau cadarn i sicrhau diogelwch yr holl blant a'r staff a chaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol i adolygu perfformiad y lleoliad ac i nodi meysydd i'w gwella. Er enghraifft, yn ddiweddar, nodont yr angen i roi mwy o gyfleoedd i blant ddefnyddio arian ac

maent wedi cynllunio ar gyfer hyn mewn gweithgareddau chwarae rôl. Mae hunanarfarniad y lleoliad yn canolbwyntio'n gryf ar les a darpariaeth y plant, ond nid yw'n ystyried y safonau y mae plant yn eu cyflawni'n ddigon da bob amser, er enghraifft a yw plant mwy abl yn cael mwy o her. Mae arweinwyr yn ystyried barn rhieni a chyngor gan athrawon ymgynghorol yn dda wrth gynllunio ar gyfer gwella. Mae cynllun gwella'r lleoliad yn cynnwys nifer priodol o flaenoriaethau ac mae'n amlinellu'n fyr sut y mae'r lleoliad yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain. Mae'n nodi'r aelod staff sy'n gyfrifol am arwain mentrau ac mae ganddo amserlenni priodol.

Mae gan y lleoliad brosesau effeithiol ar gyfer recriwtio a dosbarthu staff. Mae disgrifiadau swydd cyfredol gan yr holl ymarferwyr, sy'n datgan eu cyfrifoldebau yn glir. Mae'r arweinydd a'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau addas i gyflawni eu rolau a chefnogi anghenion yr holl blant yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn rhannu cyfrifoldebau'n dda ac mae'n fodel da o ymddygiad. Mae hi'n gweithio gyda grwpiau o blant yn rheolaidd fel y gall staff eraill gyflawni tasgau yn unol â'u cyfrifoldebau, fel cyfarfod â rhieni i drafod anghenion dysgu ychwanegol plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cadarn iawn â rhieni a'r gymuned leol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at les plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwybodaeth dda iawn i rieni am ei waith trwy gylchlythyron rheolaidd, gwefan addysgiadol, cyfryngau cymdeithasol a hysbysfyrddau sy'n cael eu diweddaru'n wythnosol gan ymarferwyr. Mae arweinwyr yn ymateb i adborth yn amserol. Mae'r lleoliad yn defnyddio rhaglenni iaith a chwarae yn effeithiol iawn i helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plant. Mae arweinwyr hefyd yn cyflwyno'r sesiynau hyn yn y gymuned leol ynghyd ag 'Awr Actif' yn y ganolfan hamdden leol. Mae hyn yn atgyfnerthu ffocws cryf y lleoliad ar iechyd a lles a'i ymrwymiad i rannu'r negeseuon hyn er budd y gymuned ehangach. Mae plant yn perfformio caneuon ar gyfer grwpiau cymunedol yn rheolaidd, er enghraifft adeg y cynhaeaf a'r Nadolig.

Mae'r lleoliad yn datblygu cysylltiadau agosach ag ysgolion lleol i sicrhau bod trefniadau i blant symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu yn effeithiol. Mae eisoes wedi datblygu prosesau cadarn i gynorthwyo â throsglwyddo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos â cholegau lleol ac mae ganddo becynnau cymorth ansawdd da i fyfyrwyr sy'n mynychu'r lleoliad i'w paratoi ar gyfer gweithio yn y sector gofal plant. Mae gan arweinydd y lleoliad berthynas waith dda gydag uwch staff gofal plant yn y coleg lleol ac, o ganlyniad, mae'r lleoliad yn elwa o rannu arbenigedd.

# Atodiad 1

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 4<br>40% | 6<br>60% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p’un ai i ddefnyddio’r lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 7<br>70% | 3<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 8 | 6<br>75% | 1<br>12% | 1<br>12% | 0<br>0% | 2 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy’n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 9 | 4<br>44% | 4<br>44% | 1<br>11% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Care is good. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae’r gofal yn dda. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 8 | 6<br>75% | 2<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 8 | 4<br>50% | 4<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 10 | 7<br>70%<br>0% | 3<br>30%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 8 | 5<br>62%<br>0% | 3<br>38%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 9 | 7<br>78%<br>0% | 1<br>11%<br>0% | 1<br>11%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 7<br>70%<br>0% | 3<br>30%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 9 | 4<br>44%<br>0% | 4<br>44%<br>0% | 1<br>11%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| My child is well prepared for moving on to school. | 8 | 3<br>38%<br>0% | 5<br>62%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 6 | 5<br>83%<br>0% | 1<br>17%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The setting is well run. | 10 | 7<br>70%<br>0% | 3<br>30%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0<br>0%<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |

## Atodiad 2

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ac AGGCC (www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

# Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn yr ymadrodd anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion yn ychwanegol at anghenion y rhan fwyaf o'r plant eraill yn y lleoliad, am sawl rheswm gwahanol. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys y Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r Person â Gofal<br>• Person Cofrestredig – y person sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gall fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn Cyfrifol – pan fydd y person cofrestredig yn sefydliad, dyma rywun wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar ei ran<br>• Person â Gofal – yr unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig i fod â gofal llawn am y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Dyma'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim i blant dwy oed cymwys i helpu i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Hefyd, darparant lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **System unigolyn allweddol neu weithiwr allweddol** | Dyma ymarferydd sydd wedi'i neilltuo i bob plentyn fel bod rhywun cyfarwydd, dibynadwy ar gael i'r plentyn a bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'n meithrin perthynas gadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Ymarferwyr** | Pob unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliad. |